

Briff 7 Munud

Adolygu Ymarfer Oedolion

EBRR4/2017

Cyfle Dysgu

Ystyried yr achos a drafodir a meddwl am sut gallai'r sefyllfa hon fod wedi digwydd yn ystod eich gwaith gydag unigolion agored i niwed?

Gofyn a oes unrhyw elfennau tebyg mewn achosion rydych wedi bod yn gweithio arny'n nhw neu sefyllfaoedd rydych wedi dod ar eu traws?

Beth fydddech wedi ei wneud mewn sefyllfaoedd tebyg wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed? A hefyd, beth yw'r rhwystrau i ymarfer yn eich sefydliad?

Nodi cymorth allweddol ar eich cyfer chi yn eich tîm.

Cefndir

Comisiynwyd Adolygiad Cryno o Ymarfer Oedolion gan BDRHCaF yn unol â Chanllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Testun yr adolygiad oedd menyw 59 oed (Oedolyn C), a ganfuwyd yn farw yn ei chartref. Cofnodwyd ei bod wedi marw o Glefyd Ischemig y Galon, Arteriosclerosis y Rhydweiliau Coronaidd a Briwiau Gwythiennol wedi eu heintio ar yr aelodau is.

Bydd y Briff 7 munud hwn yn crynhoi prif bwyntiau dysgu'r adolygiad hwn.

Cyd-destun

Yn ystod cyfnod yr adolygiad, roedd oedolyn C yn hysbys i ddwy asiantaeth oedd yn cynnwys saith darparwr gwasanaeth. Bu'n hysbys y dioddefodd Oedolyn C o symudedd cyfyngedig, ei bod wedi ei chyfyngu i'r tŷ ac mewn trafferthion ariannol. Bu'n byw gyda'i mab oedd yn oedolyn a chanddo ei anghenion ei hun nas diwallwyd.

Roedd y berthynas rhwng oedolyn C a'i mab yn un chwerw. Cododd cymydog bryderon o ran llesiant oedolyn C ar nifer o achlysuron gyda'r heddlu ac ar un achlysur i'r awdurdod lleol.

Roedd y cysylltiad rhwng oedolyn C a'r gwasanaethau yn heriol gydag apwyntiadau wedi eu colli a methu ag ymgysylltu gyda gwasanaethau i ddiwallu ei hanghenion ariannol. Ar ben hynny, nid oedd yn glir i'r gweithwyr proffesiynol ai oedolyn C neu ei mab oedd yn gwneud y penderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaethau angenrheidiol.

Cyd-destun (parhad)

Disgrifiwyd amodau byw yng nghartref Oedolyn C fel rhai brwnt ac anniben. Er nad oedd esgeulustod troseddol wedi ei nodi erioed, nodwyd bod Oedolyn C yn hunan esgeuluso.

Nododd gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gydag Oedolyn C ar y pryd nifer fawr o bryderon a fyddai'n awgrymu bod Oedolyn C yn oedolyn oedd yn wynebu risg fodd bynnag ni wnaed atgyfeiriad ganddynt i'r Gwasanaeth Oedolion, ac ni cheisiwyd cyngor gan eu harweinwyr diogelu o ran y pryderon hyn.

Dysgu sefydliadol

Nodwyd pum pwynt allweddol o ddysgu sefydliadol yn yr adolygiad.

Nodir y rhain isod:

- Rhannu Gwybodaeth a Gweithio Amlasiantaethol
- Ymgysylltu â Gwasanaethau
- Hunan esgeuluso
- Capasiti a Chydsyniad
- Trothwy ar gyfer atgyfeirio oedolyn sy'n wynebu risg

Argymhellion i wella systemau ac ymarfer

- Gwnaeth yr adolygiad chwe argymhelliad yn ymwneud â'r pum prif faes dysgu sefydliadol, ac mae'r rhain fel a ganlyn:
- Mae angen i sefydliadau bennu dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol i'w gwasanaeth
- Mae angen i weithwyr proffesiynol ddeall yn llwyr ddiffiniad oedolyn sy'n wynebu risg a bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau i adrodd dan DGCALI (2014)
- Mae angen i weithwyr proffesiynol ystyried y dylanwad posibl gan ofalwyr ac anwyliad eraill ar broses benderfynu yr unigolyn.

Argymhellion - parhad

- Mae angen i ymarferwyr sicrhau y dogfennir yn glir barn yr unigolyn sy'n agored i niwed a'i fod yn dangos dealltwriaeth o'r risg
- Dylai'r bwrdd rhanbarthol ystyried datblygiad o bolisi hunan esgeuluso
- Mae angen i ymarferwyr gydnabod pwysigrwydd goruchwyliaeth ddiogelu yn enwedig mewn cyflwyniadau cymhleth

